

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 8 Ebrill, 2021 am 19.00

### 1. PRESENNOL:

#### Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Lowri Evans

#### Ward Llanllechid Uchaf

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Geraint Hughes.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Dafydd K Jones, Kevin Williams, Jên Morris, Alun Thomas ac Evan Jones.

### 3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2021.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion

**Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth** – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Nodwyd fod Gerallt Jones, Swyddog Llwybrau yn ymweld a'r safle ar y 16eg o Ebrill.

**Tai'n Lon** – mae'r gwaith wedi ail-gychwyn. Y rheswm am yr oedi pellach oedd fod angan cau y lôn am gyfnod hirach er mwyn gosod y cylfat yn ddyfnach yn y ddaear, ac oedd rhaid rhoi rhybydd penodol cyn medru trefnu hyn.

**Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes** – Geraint Williams, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi cysylltu i ddweud efallai y byddent yn gallu helpu gyda'r sefyllfa, ac efallai bod ganddynt gyllid i ariannu gwaith ffensio. Y Cyng. Wyn Bowen-Harris a Megan Tomos i drafod y mater gyda Cyng. Kevin Williams ac Alun Thomas ac i adrodd yn ôl i'r Clerc.

**Paragleidio ar Moel Wnion** – Gethin Evans o'r ymddiriedolaeth wedi gael rhif cyswllt i Cyng. Kevin Williams. Y Cyng. Kevin Williams i ddiweddarau'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

**Prosiect i Bartneriaeth Ogwen** – y Clerc i holi Meleri Davies am ddiweddariad. Y Cadeirydd i holi yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Partneriaeth Ogwen.

**Twll yn y ffordd ger y Wern** – y twll wedi gael ei lenwi, ond mae dŵr dal i barhau i lifo i lawr, a mae'r ffordd yn beryglus iawn yn ystod cyfnodau o eira a rhew. Cyng. Megan Tomos i godi'r mater gyda Cyng. Dafydd Meurig.

**Cysylltiad Fibreoptig** – Cyng. Megan Tomos wedi derbyn ymateb gan Hywel Williams AS. Hywel Williams wedi cynnig edrych i fewn i'r mater ar sail personol ond nid ar sail y gymuned gyfan, Cyng. Megan Tomos i ymateb i'r ebost ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor pe bai yn gael ymateb ffafriol.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Julian Johnson – Torri gwair Talybont

£150.00

## 6. Cae chwarae Tal y Bont

**Gardd Cymunedol** – Y Clerc wedi rhoid y wybodaeth ar tudalen facebook 'Trigolion Talybont' ac wedi hysbysu fod y Cyngor yn edrych am wirfoddolwyr i helpu.

**Datblygu Cae Pel-droed** – Y Clerc i ddanfôn manylion Broc Design at Cyng. Evan Jones. Cyng. Alun Thomas i holi Stad Penrhyn os oes gennyn nhw ddiddordeb mewn ariannu ychydig o'r prosiect.

## 8. Y Mynydd

Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Wyn Bowen Harris ar faterion ar y mynydd, y Clerc i ddanfôn crynodeb at Banel y Mynydd. Nodwyd fod y Clerc wedi danfôn y ffigyrau pro-rata at y Swyddfa yn Gaerfyrddin. Y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng y Pwyllgor Mynydd a'r bugail.

## 9. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd** – Gorchymyn Creu Llwybr Cyhoeddus Ystad Penrhyn – Penderfynwyd y Cyngor cefnogi'r cynlluniau.

**Cyflwynwyd** – Julian Johnson – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cae Gwigin – Y Clerc i danfôn ein pryderon at yr Heddlu, a gofyn iddynt gadw llygaid ar y safle. Y Clerc i ddiolch i Julian am ei waith caled ar dudalen facebook 'Trigolion Talybont'.

**Cyflwynwyd** – Aelodaeth Un Llais Cymru – Y Clerc i ailgylchredeg y manylion i'r aelodau ac i ailgyflwyno'r eitem yn y cyfarfod nesaf.

## 10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Mynediad i Ysgol Llanllechid** – Cynhaliwyd y cyfarfod rhwng 'Adra', Cynghorwyr Sir, Cyngor Cymuned Llanllechid a Bethesda. Cafwyd trafodaeth cychwynnol ynglŷn a'r problemau presennol. Y cyfarfod nesaf i'w gael ei gynnal yn ystod mis Mai.

## 11. Penderfyniadau Cynllunio:

**C20/0154/21/CC**

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

**Penderfyniad:** Tynnwyd yn ôl.

**C19/0950/21/LL**

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau a cytundeb S106.

**C20/0504/21/LL**

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C21/0008/21/DT**

27 Bro Emrys, Talybont

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochr ynghyd ac estyniadau unllawr to un codiad i flaen a chefn yr eiddo

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0078/21/CC**

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/28D**

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/42C**

Marlow, Llanllechid

Cladio cerrig i edrychiad blaen yr eiddo.

**Penderfyniad:** Ar y gweill

**Ceisiadau Cynllunio:****NP3/21/91A**

1 Green Cottage, Llanllechid

Dymchwel estyniad unllawr yn y cefn ac adeiladu estyniad deulawr yn ei le ynghyd ac estyniad unllawr ar yr ochr

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C21/0309/21/CT**

Ffermdy Red Lion, Llanllechid

Torri Coed mewn Ardal Cadwraeth

**Penderfyniad:** Nid oedd y wybodaeth i'w gael ar wefan Cyngor Gwynedd, y Clerc i gylchredeg pryd mae'r wybodaeth ar gael, a'r aelodau i ymateb drwy ebost.

## **12. Materion Brys**

Dim.